At Weinidogion Cymru,

**Dyletswyddau Adrodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013**

Yn unol â'r dyletswyddau o dan adran 7(3) a 10(2) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, isod, dyma adroddiad blynyddol Cyngor Sir Gar yn 2016-2017.

<table>
<tr>
<td>Y camau sydd wedi'u cymryd i hybu teithiau llesol</td>
<td>Mae'r tîm Diogelwch Ffyrdd yn parhau i weithio gyda nifer o ysgolion ledled y sir i annog siwrneiau teithio llesol. Gwneir hyn drwy'r Cydgysylltydd Hyfforddiant Teithio Llesol a Diogel penodol sy'n helpu i drefnu digwyddiadau a gweithgareddau megis:<br><br>• Wythnos/mis cerdded i'r ysgol;<br>• Ysgolion iach ac eco-ysgolion o ran gosod a bodloni targedau;<br>• Kerbcraft, safonau beicio cenedlaethol, beicio mwy diogel ac ati;<br>• Mewn partneriaeth â Sustrans i gyflawni'r rhaglen siwrneiau llesol.<br>• Cydlynu hyfforddiant beicio i'r ysgol gyfan.<br>• Cynorthwyo gyda Chynlluniau Teithio i'r Ysgol.<br>• Cyflwyno 'Strydoedd Ysgol' mewn dau leoliad yn y sir – Porth Tywyn a Maes y Morfa.<br><br>Mae'r Cyngor yn gweithredu ac yn hyrwyddo'r cynllun beicio i'r gwaith ac yn annog eraill i wneud hynny.<br><br>Cynhaliwyd ymgynghoriad a digwyddiadau llwybrau diogel mewn nifer o ysgolion/cymunedau i gael adborth ar y gwelliannau a awgrymir ac i hyrwyddo siwrneiau teithio llesol i breswylwyr a myfyrwyr.<br><br>Mae'r adran Teithio Llesol ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynnwys gwybodaeth am lwybrau a</td>
</tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | chynlluniau presennol/parhaus i annog a hyrwyddo beicio/cerdded.<br><br>Sir Gaerfyrddin yw'r unig gyngor i ymestyn gwefan yr ymgynghoriad Teithio Llesol er mwyn i'r cyhoedd roi adborth ar ein rhwydwaith cyffredinol a rhoi awgrymiadau ynghylch ei wella. Ychwanegwyd swyddogaethau ychwanegol i ganiatáu i ddefnyddwyr lanlwytho lluniau a gwasanaethau lleoli. |
| Y camau sydd wedi'u cymryd i ddiogelu llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau cysylltiol a gwelliannau | Defnyddir y Map Rhwydwaith Teithio Llesol gan yr adran gynllunio i helpu i lywio cytundebau A106/A278 sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â gwella seilwaith a chysylltiadau teithio llesol. Ceir cyswllt uniongyrchol rhwng swyddogion i sicrhau bod yr adborth yn gywir.<br><br>Cynhelir trafodaethau yn ystod cyfarfodydd ffurfiol gydag adrannau perthnasol eraill gan gynnwys Addysg ac Adfywio a Pholisi.<br><br>Ymchwilir i ffynonellau cyllid ychwanegol yn barhaus i sicrhau llwybrau teithio llesol newydd megis sicrhau'r Gronfa Ffyniant Bro i adeiladu Llwybr Dyffryn Tywi.<br><br>Caiff cronfa ddata blaenoriaethu diogelwch ffyrdd a throedffyrdd ei chadw a'i chynnal gan y cyngor. Mae'r gronfa ddata yn cael ei llenwi gan geisiadau gan drigolion lleol ac aelodau lleol.<br>Caiff ceisiadau eu sgorio yn seiliedig ar feini prawf megis data ynghylch damweiniau, llif y traffig/cerddwyr a maint y traffig a chaiff yr 20 cais sydd ar y brig eu hystyried yn fanylach cyn y gellid eu hadeiladu ar sail cyllid.<br><br>Mae adran ar y rhaglen gyfalaf sydd ar gyfer seilwaith sy'n gysylltiedig â theithio llesol yn unig. |

| | |
|---|---|
| | Cynhelir trafodaethau mewn cyfarfodydd chwarterol yn fewnol gydag adrannau perthnasol i nodi ychwanegiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol. Hefyd, cynhelir cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid allanol megis grwpiau ymgyrchu a grwpiau/unigolion â nodweddion gwarchodedig i ganfod eu barn ar ddarnau coll pwysig/camau cyflym.<br><br>Datblygu cynigion am gyllid i Lywodraeth Cymru drwy Trafnidiaeth Cymru ar gyfer datblygu ac adeiladu cynlluniau teithio llesol posibl.<br><br>Trefniadau Cydweithredu Rhanbarthol drwy Ddinas-ranbarth Bae Abertawe yn ystod cyfarfodydd â swyddogion a chyfarwyddwyr. Deialog barhaus gydag Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru ynghylch darpariaeth Teithio Llesol ar hyd y rhwydwaith strategol a sut rydym yn cysylltu â hyn. |
| Costau llwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau a chyfleusterau teithio llesol cysylltiedig yn y flwyddyn ariannol flaenorol. | £2,714,493 - Cyfuniad o Gronfa Teithio Llesol a Llwybrau Diogel mewn Cymunedau |

Yn ogystal â'r uchod, mae'r wybodaeth ganlynol yn rhoi trosolwg o'r seilwaith a weithredwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol:

| | |
|---|---|
| Gwariant dangosol ar gyfer cyfleusterau a llwybrau teithio llesol newydd a gwaith gwella'r llwybrau teithio llesol presennol a'r cyfleusterau cysylltiedig a ariennir neu a ariennir yn rhannol gan drydydd partïon. | Cyfraniadau A106/A278 o ddatblygiadau newydd i greu/gwella seilwaith Teithio Llesol. Mae hyn yn dibynnu ar gwmpas/nifer y datblygiadau. |
| Hyd y llwybrau newydd:<br><br>- Cerdded<br>- Beicio<br>- Rhannu Defnydd | <br><br>- 50m<br>- Amh.<br>- 2.01km |

| | |
|---|---|
| Hyd y gwell llwybrau:<br><br>- Cerdded<br>- Beicio<br>- Rhannu Defnydd | <br><br>- Amh.<br>- Amh.<br>- Amh. |
| Cyfleusterau teithio llesol newydd a gwell | Gosodwyd gorsafoedd atgyweirio beiciau i'r cyhoedd mewn 3 lleoliad arall ar draws y sir. |

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

| |
|---|
| Amh. |

Rwy’n cadarnhau y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar-lein a bydd copi caled ar gael ar gais, yn unol â Chanllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol statudol (argraffiad 2021).

Llofnod y Prif Weithredwr:

Enw'r Prif Weithredwr:

Dyddiad cyflwyno i Weinidogion Cymru: